# Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Queensferry i Barc Dewi Sant, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn galluogi cyflawniad atgyweiriadau brys i'r gerbytffordd ar Gefnffordd yr A494 o Ddolgellau i Fan i'r De o Benbedw (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel 'y gefnffordd') rhwng Cyfnewidfa Queensferry a Pharc Dewi Sant yn Sir y Fflint.

Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad a ganlyn, y codir arwyddion yn unol â hynny ynglŷn â'u cwmpas, yn weithredol rhwng 18:30 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 a 06:00 o'r gloch ar 6 Mawrth 2012, neu nes bod yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn fydd:

i. gosod gwaharddiad dros dro ar bob cerbyd, ar wahân i gerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith a'r gwasanaethau brys, a gwaharddiad dros dro ar feicwyr a cherddwyr, rhag teithio ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Tra bod y ffordd ymuno tua'r gorllewin ym Mharc Dewi Sant ar gau, y llwybr teithio amgen ar gyfer cerbydau, beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r gorllewin ac yn dymuno ymuno â'r gefnffordd fydd ymuno â'r gerbytffordd tua'r dwyrain ar y gefnffordd ym Mharc Dewi Sant a mynd ymlaen i Gyfnewidfa Queensferry. Dylid ymadael â'r gefnffordd yng Nghyfnewidfa Queensferry ac ailymuno â'r gefnffordd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin.

Tra bod y ffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyfnewidfa Queensferry, Sir y Fflint, ar gau, y llwybr teithio amgen ar gyfer cerbydau, beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r dwyrain ac yn dymuno ymuno â'r gefnffordd fydd ymuno â'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y gefnffordd yng Nghyfnewidfa Queensferry a mynd ymlaen i Barc Dewi Sant. Dylid ymadael â'r gefnffordd ym Mharc Dewi Sant ac ailymuno â'r gefnffordd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain.

Er y disgwylir na fydd y Gorchymyn ond yn weithredol yn ystod y dyddiadau a nodir uchod, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o ddim mwy na 6 mis fel cynllun wrth gefn os digwydd bod angen ailamseru'r gwaith neu os bydd angen gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

### YR ATODLENNI

#### Atodlen 1

Gwaharddiad dros dro ar gerbydau, cerddwyr a beicwyr.

i. Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r gorllewin ar y Gefnffordd ym Mharc Dewi Sant, Sir y Fflint.

ii. Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain ar y Gefnffordd yng Nghyfnewidfa Queensferry, Sir y Fflint.

#### Atodlen 2

Terfyn cyflymder 40 mya dros dro.

i. Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin, ar y gefnffordd, sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Plough Lane am bellter o 2100 o fetrau.

ii. Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain, ar y gefnffordd, sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Cyfnewidfa Plough Lane am bellter o 1500 o fetrau.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## The A494 Trunk Road (Queensferry Interchange to St Davids Park, Flintshire) (Temporary Prohibitions and 40 mph Speed Limit) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to enable urgent carriageway repairs to be carried out on the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (hereinafter referred to as 'the trunk road') between Queensferry Interchange and St Davids Park in the County of Flintshire.

The following prohibitions and restriction, the extent of which will be signed accordingly, will operate between 18:30 hours on 5 March 2012 and 06:00 hours on 6 March 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to:

i. temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles being used for the works and the emergency services, cyclists and pedestrians from proceeding in the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice; and

ii. temporarily impose a 40 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice.

During the closure of the westbound on slip road at St Davids Park the alternative route for westbound vehicles, cyclists and pedestrians wishing to join the trunk road will be to join the eastbound carriageway of the trunk road at St Davids Park and proceed to Queensferry Interchange. Leave the trunk road at Queensferry Interchange and rejoin the trunk road on the westbound carriageway.

During closure of the eastbound on slip road at Queensferry Interchange, Flintshire the alternative route for eastbound vehicles, cyclists and pedestrians wishing to join the trunk road will be to join the westbound carriageway of the trunk road at Queensferry Interchange and proceed to St Davids Park. Leave the trunk road at St Davids Park and rejoin the trunk road on the eastbound carriageway.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Orders Branch, Transport, Welsh Government

### SCHEDULES

#### Schedule 1

Temporary prohibition of vehicles, pedestrians and cyclists.

i The entire length of the westbound on slip road of the Trunk Road at St Davids Park, Flintshire.

ii. The entire length of the eastbound on slip road of the trunk road at Queensferry Interchange, Flintshire

#### Schedule 2

Temporary 40 mph speed limit.

i. The length of the main westbound carriageway of the trunk road which extends westwards from the centre-point of Plough Lane Interchange for a distance of 2100 metres.

ii. The length of the main eastbound carriageway of the trunk road which extends eastwards from the centre-point of Plough Lane Interchange for a distance of 1500 metres.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE